Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board

Caerdydd a Bro Morgannwg Byrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol
CaFBDOR
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

Byrddau Diogelu Caerdydd a Bro Morgannwg

Is-grŵp AAP/AAO

Cylch Gorchwyl

CYFLWYNIAD

Y grŵp yw Grŵp Adolygu Arferion Plant ac Oedolion Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg ac fe'i gelwir yn Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF.

AMCANION

1. Gweithredu'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gefnogir gan Ganllaw Rhan 7; Cyf 2 a 3.
2. Ystyried, ar gais Cadeiryddion y BDPRh a'r BDORh, os bydd unrhyw achosion neu faterion o bryder angen, neu'n diwallu'r meini prawf ar gyfer Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Aml-asiantaeth, Adolygiad Cryno neu Adolygiad Estynedig.
3. Rhannu dysgu o adolygiadau a sicrhau bod dysgu thematig o adolygiadau lleol a chenedlaethol yn cael ei ystyried yng ngwaith y BDPRh a'r BDORh.
4. Sicrhau cysylltiadau cryf ag adolygiadau paralel o arferion e.e. Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid neu Ymchwiliadau Ombwdsmon Carcharau a Phrawf.

SWYDDOGAETHAU

Swyddogaeth Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF:

1. Ystyried, ar gais Cadeiryddion y BDPRh a'r BDORh, os bydd unrhyw achosion neu faterion o bryder angen, neu'n diwallu'r meini prawf ar gyfer Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Aml-asiantaeth, Adolygiad Cryno neu Adolygiad Estynedig.
2. Gwneud argymhellion i Gadeiryddion y BDPRh a'r BDORh sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu p'un a ddylid cynnal Adolygiad Arferion ai peidio;
3. Nodi a oes unrhyw adolygiad paralel ar y gweill ac argymell ffordd ymlaen i Gadeiryddion y BDPRh a'r BDORh;
4. Hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cadeiryddion yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan yr Is-grŵp Adolygu Arferion, gan gynnwys cymeradwyo amserlenni crynodeb, adroddiadau a chynlluniau gweithredu;
5. Ystyried, ar gyfer pob achos, cwmpas y broses adolygu, nodi cyfansoddiad y panel yn seiliedig ar ofynion arbenigedd penodol;
6. Nodi a chomisiynu adolygwr annibynnol i gefnogi'r panel adolygu. Bydd 'annibynnol' yn golygu annibynnol o unrhyw ymglymiad asiantaeth yn yr achos;
7. Cytuno ar gylch gorchwyl drafft ar gyfer adolygiadau fel a gynigir gan y panel adolygu a'i anfon at Lywodraeth Cymru;
8. Monitro'r broses Adolygu Arferion a goruchwylio newidiadau i'r broses hon;
9. Sicrhau bod trefniadau ar waith i ystyried yr adroddiadau trosolwg drafft a'r cynlluniau gweithredu.
10. Cefnogi'r Adolygwr/wyr a'r Cadeirydd Panel Adolygu wrth baratoi i gyflwyno unrhyw adroddiadau, amserlenni crynodeb a chynlluniau gweithredu i'r Byrddau i'w cymeradwyo;
11. Cydlynu unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun Gweithredu a'r Adroddiad a geisir gan y Byrddau; a
12. Sicrhau bod y cynllun gweithredu terfynol yn cael ei anfon yn ôl i'r Cadeiryddion i'w gymeradwyo a'i awdurdodi gan asiantaeth partner o fewn 4 wythnos o gadarnhau'r

adroddiad a sicrhau bod yr holl ddogfennau cywir yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Canllaw.

AELODAETH

Bydd aelodaeth o'r Grŵp a'i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn aml-asiantaeth a, lle bo'n berthnasol, yn cynnwys cynrychiolydd o bob partner statudol. Caiff aelodaeth ei adolygu'n flynyddol.

Sefydliad	Swydd
Gwasanaethau Plant, Cyngor Caerdydd	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Targedig
Awdurdod Lleol, Cyngor Caerdydd	Rheolwr Gweithredol, Diogelu ac Adolygu
Awdurdod Lleol, Cyngor Bro Morgannwg	Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Caerdydd	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Ardal (Gofal Hir Dymor)
Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Bro Morgannwg	Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd	Prif Seicolegydd Addysg
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg	Swyddog Diogelu
Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Caerdydd	Rheolwr Gweithredol
Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg	Uwch Gyfreithiwr
Tîm Cymunedol Cyfreithiol, Cyngor Caerdydd	RhG Cyfreithiol
Heddlu De Cymru	Rheolwr Amddiffyn Pobl Agored i Niwed Annibynnol
Heddlu De Cymru	Pennaeth Gwasanaethau Amddiffynol, BCU y Dwyrain, Heddlu De Cymru
BIP Caerdydd a'r Fro	Doctor a Enwir Diogelu Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
BIP Caerdydd a'r Fro	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
BIP Abertawe Bro Morgannwg	Nyrs Arweiniol, Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
Felindre	Nyrs Uwch Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Tîm Diogelu Cenedlaethol	Nyrs Dynodedig ar gyfer Tîm Diogelu Cenedlaethol Cymru GIG, Iechyd y Cyhoedd Cymru
Mirus	PSG
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol LDU	Pennaeth LDU ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Tai, Cyngor Caerdydd	Rheolwr Uned Cynhwysiant Cymdeithasol
Tai, Bro Morgannwg	Arweinydd Tîm Projectau Tai a Strategol
NSPCC	Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant
WAST	Arbenigwr Diogelu
Gwasanaeth Tân	Swyddog Diogelu, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

I gyfarfod fod yn gworwm, dylai isafswm o 4 asiantaeth fod yn bresennol, gan gynnwys Gwasanaethau Plant ac Oedolion o Gaerdydd a Gwasanaethau Plant ac Oedolion o Heddlu Bro Morgannwg a De Cymru.

ATEBOLRWYDD

1. Mae Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF yn atebol i Grwpiau Cynllunio Busnes y BDPRh a'r BDORh.
2. Mae aelodau grŵp yn gyfrifol am sicrhau'r aelodaeth gywir o'u hasiantaethau yn yr Is-grŵp ac unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen.
3. Cyfrifoldeb aelodau Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF i ymgynghori'n briodol o fewn eu sefydliadau a briffio eu haelodau sefydliadol ar unrhyw faterion perthnasol sy'n codi mewn perthynas â gwaith yr Is-grŵp.
4. Bydd aelodau yn sicrhau eu bod wedi ymrwymo i'r Is-grŵp, caiff dirprwyon ond eu derbyn mewn amgylchiadau eithriadol a phan fo unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i nodi.
5. Rhaid i'r holl aelodau sicrhau eu bod wedi ymrwymo i'r broses gan gynnwys nodi aelodau'r panel adolygu a sicrhau eu bod yn gwbl barod.
6. Cydymffurfir â'r holl dasgau / gofynion a nodir ym mhob proses Adolygu Arferion a chedwir at yr holl amserlenni.

TREFNIADAU CADEIRIO

Caiff Cadeirydd Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF ei enwebu gan Grwpiau Cynllunio Busnes y BDPRh a BDORh a bydd yn aelod ohonynt yn dilyn hynny. Caiff Cadeirydd Is-grŵp AAP/AAO BDRh CF ei enwebu gan yr is-grŵp.

CYFARFODYDD

Caiff Grwpiau Gorchwyl a Gorffen eu sefydlu, gyda chymorth yr Uned Diogelu Busnes, a byddant yn cynnwys cynrychiolwyr perthnasol o asiantaethau partner yn ôl y gofyn.

Caiff yr agenda ar gyfer pob cyfarfod ei bennu gan y Cadeirydd, gan weithio ar y cyd â Rheolwr Busnes yr Uned Diogelu Busnes, yn seiliedig ar raglen waith yr is-grŵp, themâu/materion a ddaw i'r amlwg a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd blaenorol.

Bydd yr Uned Busnes Diogelu yn rhoi cymorth gweinyddol.

Caiff yr holl bapurau eu cylchredeg 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Caiff yr agenda ar gyfer pob cyfarfod ei pharatoi fel y penderfynir gan y Cadeirydd o'r cynllun gwaith a'r camau cytunedig neu archwiliadau o gyfarfodydd blaenorol.